

Ysgol Caer Elen



Herio bwlio ac aflonyddu

Dyddiad cyhoeddi	Rhagfyr 2019
	Dyddiad adolygu: Tachwedd 2023 Dyddiad diweddaru: Awst 2026

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 3
Grym iaith	Tudalen 3
Nodau'r polisi	Tudalen 3
Beth yw bwlio?	Tudalen 4
Beth sydd ddim yn fwlio?	Tudalen 7
Dull ysgol gyfan	Tudalen 8
Annog adrodd am ddigwyddiadau os bydd bwlio yn digwydd	Tudalen 10 Tudalen 11
Bwlio y tu allan i'r ysgol	Tudalen 12
Cwynion	
Adolygu'r polisi	Tudalen 12
Dogfennau cyfeirio a dolenni defnyddiol	Tudalen 13



Cyflwyniad

Mae'r ysgol hon yn credu bod ymddygiad bwlio yn gwbl annerbyniol ac na ddylid ei oddef. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd am fynd i'r afael â bwlio os bydd yn digwydd ac i gydweithio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd gyfreithiol i atal a mynd i'r afael â phob math o ymddygiad bwlio.

Grym iaith

Mae ein hysgol yn ymwybodol bod defnyddio termau fel 'bwli' a 'dioddefwr' yn atgyfnerthu'r syniad bod gan y pwerus rym dros y gwan a gall weithiau annog disgyblion i ddod yn fwlis er mwyn peidio â chael eu gweld fel pobl gwan. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd yr ysgol hon yn defnyddio'r termau 'tramgwyddwr' a 'tharged'

Wrth osod amcanion polisi ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi sylw dyledus i ddyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion sydd heb y nodwedd honno; mae hyn yn golygu dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion sydd heb y nodwedd honno

Nodau'r polisi

Mae'r polisi hwn yn hanfodol i gefnogi ethos ein hysgol gyfan, sef sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn hapus. Fe'i lluniwyd i atal ymddygiad bwlio lle bynnag y bo modd, i ymateb yn gyson yn unol â gweithdrefnau cytunedig pe bai'n digwydd ac i ddarparu cefnogaeth i'r unigolion hynny sy'n gysylltiedig yn ôl yr angen. Mae diogelwch, iechyd a llesiant ein plant o'r pwys mwyaf ac yn fusnes i bawb.

Mae atal yn cynnwys anfon neges glir bod ymddygiad negyddol yn wrthgymdeithasol, yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef yma. Mae'r polisi ysgol hwn yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru *'Herio bwlio ac aflonyddu'* (2026) ac mae'n disodli'r canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd yn 2019 *'Herio bwlio – hawliau, parch, cydraddoldeb'* (2019). Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu yw hyn, yn ogystal â chanllawiau cynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r canlynol;

- gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol
- y defnydd o'r diffiniad o ymddygiad bwlio a amlinellir yn y canllaw hwn



- pam ei bod hi'n bwysig atal a herio ymddygiad bwlio
- sut y byddwn yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiad bwlio
- sut y bydd gwaith gwrthfwlio yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm yn hytrach na digwyddiad blynyddol ynysig (fel yn ystod wythnos gwrthfwlio)
- cynnwys staff, dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr ysgol yn natblygiad a gweithrediad y polisi sy'n mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma
- arwyddion y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn profi ymddygiad bwlio
- sut y bydd ymddygiad bwlio yn cael ei atal gan gynnwys ar deithiau i'r ysgol ac oddi yno
- pryd y bydd yr ysgol yn cymryd camau gweithredu mewn perthynas ag ymddygiad bwlio ar-lein a thu allan i'r ysgol
- sut y bydd yr ysgol yn ymateb i ddigwyddiadau
- sut i roi gwybod am ymddygiad bwlio
- beth all dysgwyr ei ddisgwyl
- beth all rhieni, cymuned yr ysgol ac eraill ei ddisgwyl
- sut y bydd digwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u monitro
- sut y gall dysgwyr a (neu) rhieni, cymuned yr ysgol ac eraill uwchgyfeirio'r mater yn briodol os nad ydynt yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif
- sut y byddwch chi'n gwerthuso ac yn adolygu'r polisi a'r strategaeth.

Mae hyn yn gysylltiedig â pholisïau canlynol yr ysgol;

- ymddygiad
- diogelu
- presenoldeb
- defnydd derbyniol o TGCh
- diogelwch ar-lein
- ymddygiad teithio
- gwaharddiadau

Beth yw bwlio?

Nid oes diffiniad cyfreithiol o fwlio yng Nghymru nac yn wir yn y DU. Felly, mae'r diffiniad a ddefnyddir yn y canllaw hwn yn adeiladu ar egwyddorion a ddefnyddir yn eang a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig ers 1993.

At ddibenion y canllaw hwn, diffinnir bwlio fel:

ymddygiad gan unigolyn neu grŵp sy'n brifo eraill yn fwriadol naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol, a all gynnwys achosion unigol sy'n cael eu hailadrodd dros amser fel arfer.

Mae bwlio'n wahanol i ddadl, ymladd neu gweryl rhwng ffrindiau, oherwydd yn gyffredinol:

- mae'n fwriadol
- mae'n cael ei ailadrodd dros amser



- mae anghydbwysedd neu anghydbwysedd ymddangosiadol mewn pŵer rhwng y plentyn neu'r person ifanc sy'n bwllo a'r unigolyn sy'n cael ei fwlio
- mae bwllo yn creu teimladau o ofid, ofn, unigrwydd, cywilydd a diymadferthedd

Gall ymddygiad bwllo gymryd sawl ffurf, gan gynnwys y canlynol.

Corfforol

Cicio, baglu unigolyn, gwthio rhywun, anafu rhywun, difrodi eiddo rhywun neu wneud ystumiau i godi braw ar rywun.

Geiriol

Gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu godi braw.

Emosiynol

Ymddygiad sydd wedi'i fwriadu i ynysu, rheoli, niweidio neu godi cywilydd ar rywun.

Anuniongyrchol

Gweithredoedd slei neu lechwraidd sy'n digwydd y tu ôl i gefn plentyn neu berson ifanc, neu roi sion ar led.

Ar-lein

Defnyddio unrhyw fath o dechnoleg, gwasanaethau neu blatfformau ar-lein, er enghraifft, gemau, cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau negeseua a fforymau. Gall ymddygiad bwllo ar-lein gynnwys ymddygiad bygythiol, cam-drin, aflonyddu, cywilyddio, allgáu, dynwared, difrod maleisus, rhannu delweddau neu fideos heb ganiatâd (gan gynnwys rhai sydd wedi'u cynhyrchu drwy ddeallusrwydd artiffisial) a gorfodaeth.

Ymosodedd at gydberthynas ag eraill

Ymddygiad bwllo sy'n ceisio niweidio cydberthynas neu statws cymdeithasol plentyn neu berson ifanc. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- annog ei ffrindiau i droi cefn arno
- manteisio ar anghenion dysgu ychwanegol neu salwch rhywun
- targedu statws cymdeithasol neu ariannol ei deulu
- ynysu rhywun neu godi cywilydd arno
- achosi helynt yn fwriadol i rywun



Rhywiol

Cyffwrdd digroeso, bygythiadau, awgrymiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, 'pornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a rhywiol eglur o'r plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei dargedu. Pan fydd unrhyw rai o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â phobl rhwng 10 a 17 oed yn unig, byddant yn cael eu hystyried fesul achos, a rhai yn cael eu trin fel mater diogelu a (neu) droseddol. Mae'r mater hwn yn sylw pellach yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Cysylltiedig â rhagfarn

Ymddygiad bwlio tuag at ddysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â stereoteipiau neu ragdybiaethau am hunaniaeth. Gall rhagfarn hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at ymddygiad bwlio am amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol ac ariannol neu gefndir diwylliannol. Gweler yr adran am fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn i gael rhagor o wybodaeth.

Sylwadau sarhaus a chellwair

Yn aml, bydd plant a phobl ifanc yn protestio trwy ddweud mai jôc neu gellwair oedd digwyddiad. Os yw dau ffrind sydd â grym cyfartal yn cellweirio â'i gilydd, ni ystyrir hynny'n ymddygiad bwlio. Os bydd un dysgwr yn defnyddio'r hyn y mae'n honni sy'n gellwair i fychanu neu fygwth dysgwr arall sydd heb rym i atal hynny ac mae'r weithred honno yn codi ofn arno, mae'n debyg y bydd hynny'n croesi'r ffin rhwng cellwair ac ymddygiad bwlio.

Mae nifer o elfennau amlwg yn gysylltiedig ag ymddygiad bwlio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

Bwriad i achosi niwed

Mae ymddygiad bwlio yn rhywbeth bwriadol, a'r bwriad o achosi niwed. Bydd plant a phobl ifanc sy'n bwlio eraill yn aml yn gwybod sut yn union i fychanu neu frifo rhywun. Maent yn roi sylw i agweddau allweddol ar eu hedrychiad, eu personoliaeth neu eu hunaniaeth i sicrhau'r effaith a ddymunir. Byddant yn canfod yr agwedd sy'n rhoi grym iddynt dros yr unigolyn.

Canlyniad niweidiol

Caiff rhywun neu grŵp ei frifo yn gorfforol neu'n emosiynol. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- gwneud iddynt deimlo'n unig, codi cywilydd arnynt neu wneud iddynt deimlo'n ofnus
- gwneud iddynt gwestiynu eu hymdeimlad o'u hunanwert



Gweithredoedd uniongyrchol neu anuniongyrchol

Gall ymddygiad bwlio gynnwys y canlynol:

- ymddygiad ymosodol uniongyrchol, megis taro
- gweithredoedd anuniongyrchol fel lledaenu sïon, datgelu gwybodaeth breifat am rywun, neu rannu delweddau personol iawn neu 'ffugiad dwfn' â phobl na fwriadwyd iddynt weld yr wybodaeth neu'r delweddau.

Mae'r gweithredoedd hyn yn ffordd o reoli'r dysgwr arall. Pan fydd digwyddiadau'n ymwneud â phobl rhwng 10 a 17 oed, byddant yn cael eu hystyried fesul achos. Bydd rhai yn cael eu trin fel mater diogelu a (neu) droseddol.

Ailadrodd

Mae ymddygiad bwlio fel arfer yn cynnwys gweithredoedd ailadroddus o ymddygiad negyddol neu ymddygiad ymosodol sy'n rheoli ac yn cam-drin yn emosiynol. Fel arfer, ni fydd gweithred ymosodol ynysig, megis ymladd, yn cael ei hystyried yn ymddygiad bwlio. Fodd bynnag, gall unrhyw ddigwyddiad fod yn fan cychwyn ymddygiad bwlio sy'n datblygu wedi hynny. Dyna pam mae cofnodion o ddigwyddiadau mor werthfawr.

Grym anghyfartal

Mae ymddygiad bwlio yn cynnwys camddefnydd o rym gan un unigolyn neu grŵp sy'n cael eu hystyried yn fwy grymus, yn aml oherwydd eu hoedran, eu nerth corfforol, eu poblogrwydd neu eu gwydnwch seicolegol a'u braint.

Arwyddion posibl o fwlio

Gall yr unigolion sy'n cael eu bwlio ddangos newidiadau mewn ymddygiad fel dod yn swil ac yn nerfus, esgus bod yn sâl neu lynu wrth oedolion. Gall eu gwaith ysgol ddirywio. Gallant gael anhawster canolbwyntio neu fod yn absennol o'r ysgol heb ganiatâd.

Rhesymau a chymhellion dros fwlio

Er ei fod yn annerbyniol, nid yw rhai mathau o ymddygiad yn cael eu hystyried yn fwlio. Cydnabyddir y gall un digwyddiad unigol achosi trauma i ddysgwr a gwneud iddo bryderu y bydd dial yn digwydd neu y gwnaiff y bwlio ddigwydd eto yn y dyfodol. Dylai ymyriadau gael eu gweithredu yn syth, mewn achosion o ymddygiad bwlio neu yn achos unrhyw ymddygiad negyddol unigol arall. Dylai digwyddiadau unigol nad ydynt yn rhan o batrwm ailadroddus o ymddygiad bwlio gael eu trin fel ymddygiad amhriodol a dylid mynd i'r afael â nhw yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.



Beth sydd ddim yn cael ei ystyried yn fwlio?

Cweryl rhwng ffrindiau

Nid ystyrir bod ffrae neu anghytundeb rhwng dau ffrind neu berson ifanc yn ymddygiad bwlio fel arfer. Fodd bynnag, gall ffrae rhwng ffrindiau waethygu a datblygu i fod yn achos o fwlio sy'n cael ei alluogi yn sgil y ffaith bod gan gyn-ffrindiau wybodaeth fanwl am ofnau a theimladau ansicr y naill a'r llall. Bydd plant a phobl ifanc sy'n cael eu targedu gan gyn-ffrindiau yn teimlo'r brad hwnnw i'r byw, a byddant yn aml yn cael eu harwahanu oddi wrth eu grŵp blaenorol o ffrindiau.

Ffrae neu anghytundeb

Ni ystyrir bod ffrae neu anghytundeb rhwng dau blentyn neu berson ifanc yn ymddygiad bwlio fel arfer.

Ymladd

Ni yw ymladd yn cael ei ystyried yn ymddygiad bwlio. Dylid mynd i'r afael â hyn yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol oni bydd yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n awgrymu bod unigolyn arall yn cael ei dargedu yn fwriadol. Dylid atal ymosodiadau corfforol a mynd i'r afael â nhw ar unwaith; efallai y bydd yn briodol cynnwys yr heddlu mewn rhai achosion.

Digwyddiadau casineb

Oni bai bod digwyddiad casineb yn cael ei ailadrodd, ni fyddai fel arfer yn cael ei ystyried yn ymddygiad bwlio, ond gallai fod yn ymddygiad troseddol o hyd. Byddai angen delio â hyn yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol a pholisïau perthnasol eraill. Byddai angen i'r ysgol gynnwys yr heddlu os yw'n ymddangos bod trosedd wedi'i chyflawni.

Beth sy'n cymell bwlio?

Gall plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad bwlio gael eu cymell oherwydd nifer o resymau. Efallai fod ganddynt ragfarnau yn erbyn grwpiau penodol yn y gymdeithas ehangach. Efallai fod y safbwyntiau rhagfarnllyd hyn wedi'u dylanwadu gan amrywiaeth eang o ffactorau, yn gynnwys y dylanwadau canlynol:

- cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein
- gwerthoedd cymunedol a'r (neu'r) teulu
- profiad personol blaenorol

Gall plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad bwlio gael eu cymell awydd am y canlynol:

- pŵer a bod yn boblogaidd



- perthyn i grŵp dethol cryf sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a hunan-barch
- osgoi cael eu bwlio eu hunain
- gwneud iawn am fychanu, y maent eu hunain wedi'i ddioddef yn y gorffennol, a allai fod yn gysylltiedig ag angen ehangach ynghylch camdriniaeth, esgeulustod neu fath arall o niwed

Mae ein dull ysgol gyfan o atal bwlio yn cynnwys y canlynol:

- Mabwysiadu dulliau ataliol i fynd i'r afael â bwlio.
- Datblygu ethos cadarnhaol sy'n cynnwys gwybod bod bwlio yn annerbyniol.
- Disgwyl ymddygiad cadarnhaol sy'n helpu ac yn cefnogi dysgu a datblygiad.
- Lefel uchel o hyfforddiant ac ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer ysgol sy'n ystyriol o drawma gyda chymuned yr ysgol gyfan.
- Hyrwyddo cydweithrediad a disgwyl ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.
- Annog y rhai sy'n gweld ac sy'n dyst i fwlio i weithredu'n gadarnhaol drwy rybuddio staff a rhoi pwysau cyfunol gan gyfoedion i atal y tramgwyddwyr.
- Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, sgiliau a thalentau pawb.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwydnwch drwy wasanaethau, amser cylch, ABCh, y rhaglen Ysgolion Iach, datblygu sgiliau, dysgu strategaethau ymdopi personol i ddisgyblion, cynnwys Cyngor yr Ysgol, a chynlluniau cyfeillio. Rhaglen KiVa a mentora cymheiriaid.
- Cyfranogiad gweithredol ein swyddog heddlu cymuned ysgol dynodedig wrth gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.
- Codi ymwybyddiaeth am ymddygiad bwlio drwy gael asiantaethau allanol i gefnogi'r ysgol fel y Tîm Cyswllt Heddlu (Rhaglen School Beat); gweithgareddau wythnos gwrthfwlio bob mis Tachwedd / gwasanaethau boreol / sesiynau ABCh / cynnwys y cwricwlwm.
- Defnyddio cyfleoedd ar draws Cwricwlwm i Gymru 2022 i ymgorffori ymddygiad cadarnhaol a pharch. Ni fydd cyfleoedd yn gyfyngedig i'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant ond yn cael eu hystyried ar draws pob maes cwricwlwm a thu hwnt.
- Dangos parch at eraill a herio ac addysgu am iaith amhriodol, sy'n
 - hiliol,
 - homoffobig,
 - rhywiol,
 - dangos rhagfarn o ran crefydd,
 - wedi'i ysgogi gan anabledd,
 - neu y byddai'n cael ei ystyried yn sarhaus neu'n ddirmygus gan unrhyw grwpiau gwarchodedig a enwir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Sicrhau bod yr wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bawb yn ein cymuned ysgol.
- Hyfforddi'r holl staff gan gynnwys staff amser cinio a hyfforddwyr dysgu, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth i adnabod bwlio a dilyn polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar fwlio. Bydd anghenion hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer pob aelod o staff.
- Creu "mannau diogel" yn weithredol ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed.
- Cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol wrth ddylunio/gweithredu'r polisi.



- Hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth plant am faterion trais a cham-drin mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran ac yn ddiogel drwy gynnal sesiynau gan Stori (Hafan Cymru - Prosiect Sbectrwm gynt).
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn dangos ymddygiadau cadarnhaol priodol trwy esiampl.
- Cysylltu ag asiantaethau allanol perthnasol lle bo'n briodol.

Gwyliedyddion

Mae gwyliedyddion sy'n chwerthin neu'n ymuno yn yr ymddygiad bwlio mewn perygl o ddatblygu i fod yn fwll eu hunain. Bydd ein hysgol yn ymdrechu i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n wyliedyddion ymddygiad bwlio yn deall bod ganddynt y pŵer i herio hynny, naill ai drwy ymyrryd, os byddant yn teimlo ei bod yn ddiogel gwneud hynny, neu drwy hysbysu aelod o staff neu oedolyn y maent yn ymddiried ynddo yn syth.

Annog rhoi gwybod am ddigwyddiadau os bydd bwlio yn digwydd:

Gall disgyblion a rhieni/gofalwyr fod yn sicr y bydd eu pryderon yn cael ymateb gofalus a sensitif.

- Bydd pob adroddiad yn cael ei gymryd o ddifrif a'i ymchwilio.
- Bydd cyfrinachedd unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth yn cael ei barchu.
- Mae cyfleoedd i blant gyfleu pryderon yn cynnwys blwch problemau, mynediad at unrhyw aelod o staff, cynrychiolaeth ar Gyngor yr Ysgol a chyfeillion/mentoriaid a fydd yn trosglwyddo pryderon.

Os bydd bwlio'n digwydd, byddwn yn gweithredu'r gweithdrefnau canlynol, yn ôl yr angen, yn unol â chyfres ganllawiau Llywodraeth Cymru *'Herio bwlio ac aflonyddu'*. Byddwn yn cymryd pob digwyddiad o ddifrif ac yn cofnodi eu digwyddiad mewn Cofnod Bwlio.

Bydd person dynodedig yn monitro ac yn casglu gwybodaeth am darged bwlio a thramgwyddwyr, bydd yr unigolyn hwnnw'n:

- Ymchwilio i'r digwyddiad / sefydlu ffeithiau drwy siarad yn annibynnol â phawb dan sylw.
- Defnyddio technegau ymyrraeth adferol priodol i reoli anawsterau rhwng tramgwyddwyr a thargedau; annog cymodi lle bo hyn yn bosibl/ymarferol.
- Lle mae ymddygiad bwlio wedi'i gadarnhau, gweithredu sancsiynau y cytunwyd arnynt yn gyson ac yn deg yn ôl yr angen i atal digwyddiadau pellach.
- Cynnwys rhieni cyn gynted â phosibl lle bo'n briodol.
- Cymhwyso canllawiau o ddogfen waith partneriaeth "School Beat" heddluoedd Cymru gyfan i benderfynu a oes angen cynnwys yr heddlu'n swyddogol; fel y nodir yn y canllawiau hyn, delio â digwyddiadau'n fewnol lle bynnag y bo modd.
- Cadw cofnodion cywir, ffeithiol o bob digwyddiad a adroddir ac ymateb yr ysgol.
- Dylid bob amser ddilyn trywydd digwyddiadau ar ôl iddynt gael eu datrys ac adolygu'r canlyniadau i sicrhau bod ymddygiad bwlio wedi dod i ben.



- Darparu cefnogaeth barhaus i'r unigolion sy'n gysylltiedig lle bo angen; mae taflenni Llywodraeth Cymru ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr.

Bydd yr ysgol bob amser yn cynnig dull adferol ac yn ceisio adfer y niwed a achoswyd. Gall hefyd, yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, ddefnyddio sancsiynau, a gall y rhain gynnwys y canlynol;

- Tynnu yn ôl breintiau/amser rhydd.
- Atal mynediad i rannau o'r ysgol.
- Gwaharddiad tymor byr neu hirdymor, cadw ar ôl ysgol neu waharddiad yn ystod amser cinio.
- Cynnwys rhieni pan fo angen.
- Cynnwys asiantaethau allanol priodol.
- Ychwanegu manylion ar gofnod ysgol y tramgwyddwr.

Cadw tystiolaeth

Dylid annog dysgwyr sy'n cael eu bwlio, lle bo modd, i gadw tystiolaeth o'r gweithgarwch. Gall tystiolaeth fod yn fygythiadau neu ddelweddau a anfonwyd ar-lein neu all-lein trwy negeseuon, sgysiau, nodiadau neu ddelweddau, dillad neu eiddo arall wedi'u difrodi, sgysiau neu nodiadau ar-lein. Efallai y bydd gwylidyddion hefyd yn gallu darparu datganiadau tystion neu dystiolaeth ychwanegol. Dylid cofnodi dyddiadau ac amseroedd y digwyddiadau. Gellir cadw sgrinluniau fel tystiolaeth ar-lein.

Bydd ymyriadau'n ystyried yr effaith ar ddysgwyr unigol ac ni ddylent gynnwys tynnu dysgwr a oedd yn darged bwlio o'r ysgol. Er y gall hyn ddiogelu'r dysgwr rhag niwed uniongyrchol pellach, gall niweidio ei hunan-barch a'i lesiant emosiynol a grymuso'r plentyn neu'r person ifanc sy'n arddangos yr ymddygiad bwlio. Mae hefyd yn cyfleu'r neges bod yr ymddygiad bwlio yn dderbyniol, mae'n amharu ar addysg y plentyn neu'r person ifanc ac yn gallu ei gwneud hi'n anoddach iddo ailintgreiddio.

Os ystyrir ei bod yn briodol, gall yr ysgol ddarparu darpariaeth ar wahân ar y safle (ar gyfer y naill ddysgwr neu'r llall) i roi seibiant i'r plentyn neu'r person ifanc yr effeithiwyd arno gan yr ymddygiad bwlio. Fel ysgol, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod dysgwr sy'n cael ei fwlio yn gallu mynychu'r ysgol a'i fod yn teimlo'n ddiogel yn gwneud hynny.

Bwlio y tu allan i'r ysgol

O dan adran 89 o Ddeddf 2006, gall penaethiaid bennu mesurau i reoleiddio ymddygiad dysgwyr pan fyddant oddi ar y safle neu pan nad ydynt o dan reolaeth neu ofal aelod o staff. Mae hyn o arwyddocâd arbennig i ymddygiad bwlio ar-lein sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r ysgol ond a all gael effaith gryf iawn ar fywyd ysgol y dysgwyr hynny sy'n gysylltiedig.



Gall staff yr ysgol ofyn i ddysgwr ddatgelu neges neu ddangos cynnwys arall iddo ar ei ffôn er mwyn cadarnhau bod ymddygiad bwlio wedi digwydd. Lle mae'r testun neu'r ddelwedd yn weladwy ar y ffôn, gall staff weithredu ar hyn. Lle mae polisi ymddygiad yr ysgol yn caniatáu hynny'n benodol, gall aelod o staff chwilio drwy ffôn y dysgwr ei hun os oes amheuaeth resymol bod y dysgwr yn gysylltiedig â digwyddiad. Cynghorir staff i beidio byth â chwilio trwy ffôn dysgwr heb aelod staff priodol arall yn bresennol. Mae'n well gwneud hyn ym mhresenoldeb yr arweinydd diogelu dynodedig neu'r rheolwr TGCh. Dylent baratoi nodyn ysgrifenedig yn nodi'r canlynol:

- y dyddiad
- amser
- pwy oedd yn bresennol
- pwrpas y chwiliad

unrhyw dystiolaeth pam roedd angen gwneud hyn

Mae Adran 94 o Ddeddf 2006 hefyd yn darparu amddiffyniad i staff ysgolion wrth gymryd eitemau, megis ffonau symudol, oddi ar ddysgwyr os byddant yn cael eu defnyddio yn groes i bolisi ymddygiad a (neu) bolisi gwrthfwlio yr ysgol ac yn cael eu cymryd fel cosb ddisgyblu.

Teithio i'r ysgol ac oddi yno

Mae'r Cod ymddygiad wrth deithio statudol (y cod teithio) a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi gofynion penodol ynghylch ymddygiad dysgwyr wrth deithio. Mae'r cod teithio yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr 'beidio byth â bwlio dysgwyr eraill' a 'pharchu eraill (gan gynnwys gyrwr y bws)'.

Mae'n bwysig cofio y gellir diffinio llawer o ymddygiadau, a elwir yn fwlio yng nghydestun yr ysgol, yn ôl y gyfraith fel ymddygiad bygythiol, difrod troseddol, lladrad, ymosodiad, aflonyddu rhywiol, aflonyddu ar bobl anabl, aflonyddu homoffobig neu hiliol, a throsedd casineb. Mae gan ddisgyblion a rhieni hawl i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath i'r heddlu.

Sut bydd yr ysgol yn mesur a yw hyn yn effeithiol

Byddwn yn cynnal ymarfer hunanasesu gan geisio adborth gan staff a dysgwyr i fesur graddfa bwlio sy'n bodoli ac yn adolygu'n barhaus ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn ysgol. Gellir defnyddio'r data hwn i ddangos tystiolaeth o gynnydd fel rhan o hunanwerthusiad a chynllun datblygu'r ysgol.

Fel ysgol, rydym yn gwybod, os nad oes gan blant a phobl ifanc hyder y bydd canlyniad cadarnhaol yn deillio o roi gwybod am yr hyn sy'n digwydd iddynt, eu bod yn fwy tebygol o gadw'n dawel. Canfu Comisiynydd Plant Cymru fod 'ymddiriedaeth' yn thema a godwyd dro ar ôl tro gan blant.



Yr hawl i gwyno


Ar ôl rhoi gwybod i'r ysgol am fater ynghylch ymddygiad bwlio, os nad yw dysgwr neu ei riant yn teimlo bod yr ysgol wedi'i gymryd o ddifrif neu nad yw wedi mynd i'r afael â'i bryder i safon foddhaol, gallant wneud cwyn ffurfiol.

O dan adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i lywodraethwyr ysgolion fabwysiadu a chyhoeddi gweithdrefn gwyno sy'n sicrhau y gall unrhyw un sydd â buddiant yn yr ysgol wneud cwyn, gan fod yn hyderus y caiff ei hystyried yn briodol ac yn ddi-oed.

Adolygu'r polisi

Mae manylion terfynol y polisi hwn wedi eu llunio mewn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni, staff ac aelodau o gymuned yr ysgol.

Bydd yn cael ei drafod, ei adolygu a'i ddiwygio bob tair blynedd neu pan fydd canllawiau newydd Llywodraeth Cymru yn cael eu rhyddhau.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Ross McFarlane		9/9/26
Pennaeth	Mr Dafydd Hughes		1/9/26

Dogfennau cyfeirio a dolenni defnyddiol:

- **Canllawiau Llywodraeth Cymru: Herio bwlio ac aflonyddu**
[Herio bwlio ac aflonyddu \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)
- **Deddf Cydraddoldeb 2010**
<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made>
- **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.**
<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/welsh>



- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru**
[Diogelu Cymru](#)
- **Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion**
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf>

